



## Diwrnod y Llyfr 2026

Cawsom Ddiwrnod y Llyfr hyfryd ddoe! Diolch i bawb a anfonodd lyfrau i mewn i'w cyfnewid – daeth tua 500 o lyfrau i gyd – gwych!

Wrth ddathlu llyfrau a darllen rydym wedi creu taflenni dwyieithog i'ch helpu i drafod llyfrau a darllen gyda'ch plentyn:

- Strategaethau darllen
- Cwestiynau darllen

## *World Book Day 2026*

*We had a lovely World Book Day yesterday! Thank you to everyone who sent books in for the swap – we received and swpped around 500 books in total – fantastic!*
*To celebrate books and reading, we have created bilingual leaflets to help you discuss books and reading with your child:*

- Reading Strategies
- Reading Questions





## Dwy awdures

Edrychwn ymlaen at groesawu dwy awdures i'r ysgol wythnos nesaf. Ar ddydd Llun y 9fed o Fawrth bydd Sioned Erin yn yr ysgol yn cynnal gweithdai gyda dosbarthiadau blynyddoedd 5 a 6; yna ar ddydd Mercher bydd Haf Llywelyn yn treulio sesiwn gyda blynyddoedd 3 a 4.

Ry'n ni'n ddiolchgar i'r Cyngor Llyfrau am drefnu, ac i Lywodraeth Cymru am ariannu ymweliad Sioned Erin drwy'r cynllun Dinas Llên yng Ngheredigion.

## *Two authors*

*We look forward to welcoming two authors to the school next week. On Monday, the 9th of March, Sioned Erin will be at the school running workshops with Year 5 and 6 classes; then on Wednesday, Haf Llywelyn will spend a session with Years 3 and 4.*

*We are grateful to the Books Council for arranging the visits, and to the Welsh Government for funding Sioned Erin's visit through the Dinas Llên scheme in Ceredigion.*



## Cyfle i drafod cynnydd eich plentyn

Ar brynhawniau dydd Llun a Mawrth, yr $16^{eg}$ a'r $17^{eg}$ o Fawrth, mi fydd yr ysgol ar agor i rieni a gwarcheidwaid i ddod i drafod cynnydd eu plant gyda staff yr ysgol. Byddwch wedi derbyn dolen i MS Bookings wythnos yma er mwyn trefnu diwrnod ac amser cyfleus.

## *An opportunity to discuss your child's progress*

*On the afternoons of Monday and Tuesday, the $16^{th}$ and $17^{th}$ of March, the school will be open for parents and guardians to come and discuss their children's progress with the school staff. You will have received a link to MS Bookings this week in order to arrange a convenient date and time.*

## Heddlu Dyfed Powys

Mae gwahoddiad i holl rieni'r ysgol fynychu sesiwn gydag aelod o Heddlu Dyfed Powys ynglŷn ag ymddygiad disgyblion ar-lein, yn benodol ar y cyfryngau cymdeithasol ac apiau, gan gynnwys grwpiau Whatsapp ac ati.

Cynhelir y sesiwn yn Ysgol Plascrug am 3:45yp ar ddydd Iau y $12^{fed}$ o Fawrth.

## *Dyfed-Powys Police*

*All parents of the school are invited to attend a session with a member of Dyfed-Powys Police regarding pupils' behaviour online, specifically on social media and apps, including Whatsapp groups etc.*

*The session will be held at Ysgol Plascrug at 3:45pm on Thursday, $12^{th}$ March.*

## Neges atgoffa gan y C.Rh.A

Wrth edrych ymlaen at y Pasg, mae'r gymdeithas yn gofyn i unrhywun a fyddai'n dymuno cyfrannu at brynu wyau Pasg i'r plant gysylltu â nhw drwy e-bost crha.ysgol.gymraeg@gmail.com

## *A reminder message from the P.T.A*

*As we look ahead to Easter, the PTA are asking anyone who would like to contribute towards buying Easter eggs for the children to contact crha.ysgol.gymraeg@gmail.com*

## Digwyddiadau a llwyddiannau

Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram ar gyfer rhannu lluniau a newyddion yr ysgol.
O bryd i'w gilydd bydd y timau chwaraeon wedi cystadlu neu bydd canlyniadau eisteddfodol ac ati i'w rhannu; yn ogystal â gweithgareddau'r wythnos yn y dosbarth.

Instagram – Ysgol Gymraeg


Instagram – C.Rh.A

## *Events and achievements*

*Remember that the school has an Instagram page for sharing school photos and news.*
*From time to time the sports teams will have competed or there will be eisteddfod results to share etc; as well as the week's activities in class.*

Instagram – Ysgol Gymraeg

Instagram – P.T.A



## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## *Half term Calendar*

*Here is the link to the Half Term Calendar for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

### Dyddiadau pwysig i ddod:

- Eisteddfod Ddawns : Mawrth 18fed
- Eisteddfod Gylch : Mawrth 25ain
- Eisteddfod Rhanbarth : Ebrill 18fed
- Diwrnod cau H.M.S : Mehefin 22ain

### *Important upcoming dates:*

- *Dance Eisteddfod : March 18th*
- *Area Eisteddfod : March 25th*
- *County Eisteddfod : April 18th*
- *I.N.S.E.T school closure day : June 22nd*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth / *Headteacher***
**06/03/2026**
www.ysgolgymraeg.cymru




Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY231HL
@YrYsgolGymraeg swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk 01970 617613
Prifathro / *Headteacher:* Mr Gareth L James